| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD:** | **29 Mehefin 2026** |
| **TEITL:** | **Canlyniadau arolwg peilot mesur defnydd o'r Gymraeg mewn mannau cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau ar ran Cyngor Gwynedd** |
| **AWDUR:** | **Llywela Haf Owain**<br>**Uwch Ymgynghorydd y Gymraeg a Chraffu** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Cyflwyno canlyniadau yr arolwg** |

## 1. Cefndir

1.1 Mae'r astudiaeth hon yn cyflwyno dull arloesol o fesur ac arsylwi defnydd y Gymraeg mewn mannau cyhoeddus dan do wrth i drigolion Gwynedd ddefnyddio gwasanaethau a ddarperir gan Gyngor Gwynedd a Byw'n Iach. Gwnaed yr arolwg gan Gyngor Gwynedd gyda chymorth gan gynllunwyr ieithyddol o brifysgol Bangor, Dr Rhian Hodges a Dr Cynog Prys.

1.2 Addaswyd methodoleg arolygon stryd a ddefnyddir yng Ngwlad y Basg er mwyn casglu data mewn amrywiaeth o leoliadau gwasanaeth, gan gynnwys derbynfeydd Siop Gwynedd, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden a chanolfan alwadau, mewn tri lleoliad gwahanol yn y sir. Nod y gwaith oedd sefydlu gwaelodlin gadarn, annibynnol a gwrthrychol ar gyfer monitro defnydd iaith dros amser, gan ymateb i'r diffyg presennol o ddata meintiol dibynadwy yn y maes hwn.

## 2. Crynodeb o'r adroddiad

2.1 Dengys y canlyniadau fod y Gymraeg yn parhau'n iaith gymunedol fyw yng Ngwynedd, gyda 71.8% o'r rhyngweithiadau a arsylwyd yn cael eu cynnal yn Gymraeg. Fodd bynnag, mae patrwm clir yn ymddangos o leihad yn y defnydd o'r Gymraeg gyda chynnydd mewn oedran, gyda'r defnydd uchaf ymhlith plant a'r isaf ymhlith y grŵp hŷn, 65 oed +. Gwelwyd hefyd fod defnydd o'r Gymraeg yn fwy cyffredin mewn lleoliadau anffurfiol, megis llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden, o'i gymharu â gwasanaethau mwy ffurfiol fel canolfannau galwadau.

2.2 Mae'r astudiaeth hon yn cyfrannu'n uniongyrchol at weithredu Strategaeth Iaith Gwynedd 2023–2033, gan gefnogi'r blaenoriaethau sy'n ymwneud â gwaith, gwasanaethau, technoleg ac ymchwil.

## 3. Argymhelliad

3.1 Gofynnir i'r aelodau dderbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.